

CYNGOR SIR DDINBYCH

DATGANIAD CYFRIFON

2005/06

CYNNWYS

ADRAN

TUDALENNAU

1. CYFLWYNIAD

Rhagair gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Adnoddau
Datganiad o Gyfrifoldebau
Datganiad ar y Gyfundrefn Rheoli Ariannol Mewnol

2 - 8
9
10 - 12

2. ADRODDIAD ARWCHILWR ANNIBYNNOL

13 - 14

3. DATGANIAD O BOLISIAU

Datganiad o Bolisiau Cyfrifyddu

12 - 20

4. Y PRIF DDATGANIADAU ARIANNOL

Y Cyfrif Refeniw Cyfunol
Y Cyfrif Refeniw Tai
Y Fantolen Gyfunol
Datganiad Llif Arian
Datganiad o Gyfanswm y Symudiadau yn y Cronfeydd

21 - 22
23
24
25
26

6. NODIADAU EGLURHAOL

Nodiadau ar y Cyfrif Refeniw Cyfunol
Nodiadau ar y Cyfrif Refeniw Tai
Nodiadau ar y Fantolen Gyfunol
Nodiadau ar y Datganiad Llif Arian
Nodiadau ar y Datganiad o Gyfanswm y Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn

28 - 38
39 - 41
42 - 59
60 - 61
62 - 64

CYFLWYNIAD AC AMCANION

1. CYFLWYNIAD

1.1 Cynhyrchir y Datganiad Cyfrifon Blynyddol pob blwyddyn yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Datganiad Arfer Cymeradwy (SORP), gyda'r nod o:

- gydymffurfio â gofynion statudol a phroffesiynol
- darparu gwybodaeth glir am gyllid y Cyngor i etholwyr, talwyr trethi busnes, pobl sy'n agored i drethi a thaliadau sy'n cael eu codi'n lleol, aelodau'r Awdurdod, a chyfranogion eraill.

1.2 Mae Adran 1 yn cynnwys **Rhagair** gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol—Adnoddau, sy'n rhoi crynodeb weithgareddau ariannol y Cyngor yn ystod y flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn.

- Mae'r **Datganiad o Gyfrifoldebau** sydd wedi ei gynnwys yn yr Adran hon yn amlinellu dyletswyddau'r Cyfarwyddwr Corfforaethol—Adnoddau, fel Prif Swyddog Cyllid, wrth baratoi'r cyfrifon.
- Mae'r **Datganiad o Reolaeth Ariannol Fewnol** yn nodi cyfrifoldeb am reolaeth ariannol fewnol yn y Cyngor ac yn rhoi awgrym o lefel y sicrhad y gall system o reolaeth ariannol ei darparu.

1.3 Mae'r cyfrifon yn destun archwiliad allanol annibynnol gan yr Archwilydd sydd wedi ei benodi gan y Swyddfa Archwilio Cymru. Mae **Adroddiad yr Archwilydd Allanol** wedi ei gynnwys yn Adran 2.

1.4 Mae Adran 3 y ddogfen hon yn rhoi manylion ynglyn â'r **Datganiad o Bolisiau Cyfrifyddu**. Dyma'r polisiau a ddefnyddir i gynhyrchu'r wybodaeth ariannol o fewn y Datganiad Cyfrifon.

1.5 Mae Adran 4 yn ymwneud â'r prif ddatganiadau ariannol, fel a ganlyn:—

- Mae'r **Cyfrif Refeniw Cyfunol** yn dangos faint y mae'r Awdurdod wedi ei wario yn ystod y flwyddyn ar bob un o'i wasanaethau, ynghyd ag unrhyw incwm neu wariant corfforaethol sy'n ymwneud â'r Awdurdod cyfan. Y mae hefyd yn dangos faint o'r gost hon sydd wedi ei thalu gan drethdalwyr lleol a faint sydd wedi ei hariannu gan y llywodraeth ganolog drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Mae unrhyw warged (arian dros ben) neu ddiffyg ariannol ar y cyfrif hwn yn cael ei drosglwyddo i ddaliannau cyffredinol yr Awdurdod.
- Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol roi cyfrif ar wahân am gost darpariaeth tai yr awdurdod lleol drwy **Gyfrif Refeniw Tai**. Mae'r cyfrif hwn yn dangos ble mae'r arian yn cael ei wario wrth gynnal a chadw a rheoli tai Cyngor, taliad cymhorthdal i Lywodraeth Cynulliad Cymru a sut y caiff y costau hyn eu cwrdd o renti ac incwm arall.
- Mae'r **Fantolen Gyfunol** yn rhoi darlun ariannol o holl asedau, rhwymedigaethau, cronfeydd wrth gefn a daliannau'r Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn gyfrifyddu. Mae'r asedau'n cynnwys gwerth yr asedau sefydlog megis adeiladau, tir ac offer, a gwerth asedau cyfredol megis arian sy'n ddyledus i'r Awdurdod, stoc a buddsoddiadau. Mae'r rhwymedigaethau'n ymwneud yn bennaf ag arian sy'n ddyledus gan y Cyngor i sefydliadau allanol. Mae'r cronfeydd wrth gefn a'r daliannau yn mynegi gwerth net y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn gyfrifyddu.
- Mae'r **Datganiad Llif Arian** yn dangos trafodion ariannol yr Awdurdod dros y flwyddyn, gan nodi beth oedd ffynonellau'r incwm a dderbyniwyd ar ffurf arian a'r arian gwirioneddol a gafodd ei wario. Mae'r trafodion arian yn cael eu dosrannu'n drafodion sydd o natur refeniw, trafodion sydd yn gyfalaf, a'r rhai sy'n ymwneud â benthyciadau'r Awdurdod.
- Mae'r **Datganiad o Gyfanswm y Symudiadau yn y Cronfeydd** yn dwyn ynghyd yr holl symudiadau a gafwyd yng Nghronfeydd yr Awdurdod. Mae'r datganiad yn dosrannu'r cronfeydd, yn ogystal, yn rhai y bydd modd eu defnyddio i gynnal gwariant refeniw yn y dyfodol a rhai sydd o natur cyfalaf.

RHAGAIR GAN Y CYFARWYDDWR COFFORAETHOL - ADNODDAU

- 1.6 Mae Adran 5 yn ymwneud â'r gofyn, dan y Côd Ymarfer Cyfrifyddu, i gynhyrchu gwybodaeth ychwanegol ar ffurf **Nodiadau Eglurhaol**. Nôd yr wybodaeth ychwanegol hon yw darparu gwybodaeth gefndirol ynglyn â materion ariannol penodol nad oes modd eu hadnabod yn hawdd o'r datganiadau ariannol eraill.
- 1.7 **Newidiadau yn y fformat.** Mae'n rhaid i Gadeirydd y Cyngor gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifoldebau yn awr. Mae'r Datganiad ar y System Reolaeth Fewnol yn gofyn am lofnodion y Prif Swyddog Gweithredol ac Arweinydd y Cyngor.

2. CRYNODEB REFENIW**GYLLIDEB REFENIW 2005/06**

- 2.1 Cyllideb refeniw y Cyngor am y flwyddyn oedd wreiddiol ar £142.382 miliwn (2004/05 £136.450m) ac yr oedd yn cymryd i ystyriaeth ddyfarniadau cyflog a chodiadau pris a oedd yn hysbys neu wedi eu hamcangyfrif. Mae gan Gynulliad Cymru ddylanwad mawr dros gyllid y Cyngor, ac y mae'n llunio asesiad o'r hyn y dylai pob awdurdod lleol yng Nghymru, yn ei farn ef, ei wario. Enw'r asesiad hwn yw "Asesiad Gwariant Safonol" (SSA). Roedd y gyllideb £5.382 miliwn (3.9%) uwchlaw'r asesiad gwariant safonol o £137.000 miliwn.
- 2.2 Pennodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru swm o £90.956 miliwn fel Grant Cynnal Refeniw Sir Ddinbych, (gan gynnwys Grant Amddifadiad o £0.165m) a swm o £19.639 miliwn fel cyfran Sir Ddinbych o'r incwm o drethi annomestig. Yr oedd gofyn, felly, i drethdalwyr y Cyngor ddarparu £31.566 miliwn ar gyfradd o £864.70 fesul eiddo Band D.

FFIGURAU GWIRIONEDDOL REFENIW 2005/06

- 2.3 Cyfanswmy gwariant gwirioneddol oedd £142.154 miliwn. Mae'r tabl isod yn dangos prif elfennau Cyllideb 2005/06, a sut y mae'r rhain yn cymharu â'r incwm a'r gwariant gwirioneddol:
- 2.4 Dylech nodi bod y ffigurau hyn yn cael eu cyflwyno ar sail wahanol i'r Cyfrif Refeniw Cyfunol, sydd yn cynnwys ad-daliadau Gwasanaethau Cefnogi a chostau Cyfrifyddu Asedau — y mae'n ofynnol i ddangos y rhain er mwyn cydymffurfio â'r Côt Ymarfer Cyfrifyddu.

	Cyllideb Ddiwygiedig 2005/06 £000au	Gwirioneddol 2005/06 £000au	Amrywiant 2005/06 £000au
Gwariant net ar wasanaethau	142,382	140,966	(1,416)
Cyfraniad at ddaliannau – Cyffredinol	0	404	404
Cyfraniad at ddaliannau – Clustnodwyd	0	933	933
Cyfraniad at ddaliannau – Ysgolion	0	(206)	(206)
Cyfraniad at ddaliannau – Gwasanaethau Amgylcheddol	0	(397)	(397)
Cyfraniad y gwariant	0	454	454
Cyfanswm y Gwariant	142,382	142,154	(228)
Ariannwyd gan:			
Treth y Cyngor	31,566	31,566	0
Grant Cynnal Refeniw	90,791	90,563	(228)
Trethi Annomestig Cenedlaethol	19,639	19,639	0
Grant Amddifadedd	165	165	0
LABGI	221	221	0
Cyfanswm yr Adnoddau	142,382	142,154	(228)

RHAGAIR GAN Y CYFARWYDDWR COFFORAETHOL - ADNODDAU**GWEDDILLION**

2.5 Roedd y gweddillau ar 31 Mawrth yn £5.307m.

2.6 Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, gellir cario tanwariannau ar wasanaethau ymlaen o un flwyddyn ariannol i'r nesaf, bydd hyn yn ddibynnol ar allu gwasanaethau i ddangos perfformiad priodol ac angen canfyddadwy i ddefnyddio'r arian i aelodau etholedig. Ar ddiwedd 2004/05 carwyd tanwariant o £1.201m ymlaen i 2005/06 i ariannu gwariant gwasanaeth yn y flwyddyn. Yn ystod 2005/06 adnabuwyd tanwariant o £0.933m. Yn ei gyfarfod ar 29 Mehefin 2006 cadarnhaodd y Cyngor y byddai'r cyfanswm o £0.989m (yn cynnwys yr elfen sydd heb ei ddefnyddio a gariwyd ymlaen o 2004/05) yn cael ei gario ymlaen i 2006/07 fel gweddillau a glustnodwyd i'w defnyddio i gyllido gwariant ar wasanaethau yn y flwyddyn honno.


2.7 Nod y Cyngor yw sicrhau bod ei weddillau cyffredinol yn cael eu cynnal ar lefel ddoeth.

2.8 Mae'r cyllidebau ar gyfer ysgolion unigol wedi'u neilltuo'n unswydd gyda gwargedau a diffygion ar ddiwedd y flwyddyn yn cael eu cario ymlaen. Roedd gwariant ysgolion dros y gyllideb o £0.206m ar ddiwedd y flwyddyn, a arweiniodd at leihad ym malansau'r ysgolion o £1.559m i £1.353m. Mae balansau ysgolion dan reolaeth cyrff llywodraethu ysgolion unigol ac yn cael eu dosbarthu yng nghyfrifon y Cyngor fel Cronfeydd Wth Gefn. Nid dynt yn llunio rhan o'r Balansau Cyffredinol.


2.9 Y mae dadansoddiad o'r Gweddillion wedi ei gyflwyno yn y Tabl isod.

	Cyllideb 2005/06 £000au	Gwirioneddol 2005/06 £000au	Amrywiant 2005/06 £000au
Dadansoddiad o'r Gweddillion Cyffredinol:			
Gweddillion a Ddygwyd Ymlaen	3,655	3,655	0
+ Cyfraniad i falansau – Cyffredinol	0	404	404
Gweddillion a Gludwyd Ymlaen	3,655	4,059	404
Dadansoddiad o Falansau a Glustnodwyd:			
Gweddillion a Ddygwyd Ymlaen	1,201	1,201	0
Llai Tanwariant cyllidebol 2004/05	(1,201)	(1,145)	56
+ Tanwariant Cyllidebol 2005/06	0	933	933
Gweddillion a Gludwyd Ymlaen	0	989	989
Dadansoddiad o Falansau Gwasanaethau Amgylcheddol:			
Gweddillion a Ddygwyd Ymlaen	693	693	0
Y gwarged ariannol am y flwyddyn	0	1	1
Cyfraniadau at / (o) y gweddillion	0	(435)	(435)
Gweddillion a Gludwyd Ymlaen	693	259	(434)
Cyfanswm Gweddillion	4,348	5,307	959

Dadansoddiad o Falansau Ysgolion:			
Gweddillion a Ddygwyd Ymlaen	1,559	1,559	0
Cyfraniadau at / (o) y gweddillion	0	(206)	(206)
Gweddillion a Gludwyd Ymlaen	1,559	1,353	(206)


RHAGAIR GAN Y CYFARWYDDWR COFFORAETHOL - ADNODDAU**3. CRYNODEB CYFALAF****GWARIANT CYFALAF**

- 3.1** Bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn asedau mawrion megis tir, adeiladau, gwelliannau ffyrdd, cerbydau ac offer, er mwyn cynnal a datblygu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. Mae lefel y buddsoddi hwn i'r dyfodol yn cael ei chyfyngu gan allu'r Cyngor i ariannu ei wariant cyfalaf.
- 3.2** Yn ystod 2005/06, cyflwynwyd proses blaenoriaethu cyfalaf i sicrhau bod y Cyngor yn y blynyddoedd i ddod ond yn buddsoddi arian mewn prosiectau a fyddai'n cwrdd ag amcanion a blaenoriaethau'r sefydliad.
- 3.3** Mae defnydd Benthycy Darbodus wedi cynyddu yn 2005/06 gyda £5.821m o brosiectau'n cael eu cyllido yn y modd yma. Bydd Benthycy Darbodus yn dal i fod yn rhan bwysig o gyllid Cynllun Cyfalaf y Cyngor ble bo'n briodol. Mae'r Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â Chôd Ymarfer CIPFA ar Fenthycy Darbodus.
- 3.4** Roedd Cynllun Cyfalaf 2005/06 yn cynnwys gwaith i gynnal a gwella asedau sy'n eiddo i'r Cyngor yn bennaf, gyda £5m yn cael ei wario ar Ardaloedd Adnewyddu a Thai Sector Preifat. Yr unig asedau materol newydd y daethpwyd i'w meddiant yn ystod y flwyddyn oedd £1.2m o gerbydau a gafwyd drwy Fenthycy Darbodus. Yr unig warediad sylweddol yn ystod y flwyddyn oedd gwerthiant maes parcio dros ben Lôn Parcwr, Rhuthun.
- 3.5** Yn 2005/06, gwariod y Cyngor £33.742 ar eitemau cyfalaf (yn cynnwys y Cyfrif Refeniw Tai).

RHAGAIR GAN Y CYFARWYDDWR COFFORAETHOL - ADNODDAU

3.6 Wrth ariannu'r lefel hon o wariant, defnyddiodd y Cyngor fenthyciadau (naill ai dan y Cod Darbodus neu drwy gymeradwyaethau yr oedd wedi eu derbyn oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru), ac ychwanegwyd at y rhain gan grantiau'r Llywodraeth, grantiau Ewropeaidd, cyfraniadau cyfalaf, a derbyniadau cyfalaf yn deillio o werthu asedau, at y rhain.

Prosiect	2005/06 £000au
Ysgol Uwchradd y Rhyl – Adnewyddu Ffenestri	622
Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy – Maes Pob Tywydd ac Adnewyddu'r Gampfa	347
Ysgol Plas Brondyffryn, Dinbych – Darparu Lletu Preswyl	2,295
Ysgol Plas Brondyffryn, Dinbych – Adnewyddu Ty'n Fron, Cyfleuster Cyfnod Allweddol 1 a 2	454
Canolfan Hamdden Y Rhyl – Gwaith Adnewyddu Sylweddol	1,187
Parc Cyflogaeth Cefndy, Y Rhyl – Adeiladu Gweithdai	518
Ty Nantclwyd, Rhuthun – Adnewyddu'r Adeilad	484
Y Rhyl Yn Mynd Ymlaen, Cynllun Ewropeaidd Sylweddol i wella'r Pen Gorllewinol	978
Cylfat Stryd Mwrog, Rhuthun – Cynllun Lliniaru Llifogydd	492
Depo Cerbydau Bodelwyddan – Adnewyddu Sylweddol	435
System PA RIS – System Wybodaeth Rheoli Gofal Cymdeithasol	389

RHAGAIR GAN Y CYFARWYDDWR COFFORAETHOL – ADNODDAU**4. EITEMAU ARWYDDOCAOL ERAILL****PENSIYNAU**

4.1 Y mae Cyngor Sir Ddinbych yn aelod o Gronfa Bensiwn Clwyd.

4.2 Mae buddsoddiadau wedi perfformio'n gryf iawn dros y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2006, gyda'r gronfa nodweddiadol yn cynhyrchu enillion ar y buddsoddiad o 20-25%. Mae hyn yn cymharu ag enillion disgwylidig a gyfrifwyd ar ddechrau'r flwyddyn o tua 6.5% yn glir wedi treuliau. Er hynny, roedd y rhagdybiaethau actiwaraid a ddefnyddiwyd ar 31 Mawrth 2006 yn sylweddol fwy ceidwadol na'r rheini a ddefnyddiwyd ar 31 Mawrth 2005, wedi'u gyrru gan ostyngiadau yn yr elw ar fondiau corfforaethol yn ystod y flwyddyn.

Mae hyn yn arwain at ostyngiad o £3.461m yn nyledion y Cyngor

Roedd gwerth y gronfa ar y farchnad adeg y prisiad actiwaraid diwethaf ar 31 Mawrth 2004 yn £559m.

4.3 Mae'r cyfrifon ar gyfer 2005/06 yn ymgorffori gofyniad Safon 17.9 Adroddiadau Ariannol yn llawn.

CYNLLUN BUSNES CYFRIF REFENIW TAI (HRA)

4.4 Yn ystod 2005/06 cwblhaodd y Cyngor ei arolwg o ddyfodol ei Stoc Dai.


4.5 Penderfynodd gadw'r stoc a chychwyn ar raglen fuddsoddi yn cael ei chyllido drwy Fenthycia Darbodus, a fyddai'n ei alluogi i gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn y terfyn amser statudol.

4.6 Dyfeisiwyd cynllun busnes deng mlynedd ar hugain a'i gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Fe'i hadolygwyd ymhellach gan gwmni ymgynghorwyr i roi barn gadarn i'r Cyngor ar ba mor gyraeddadwy ydyw.

4.7 Er bod nifer o risgiau wedi'u canfod, cytunodd pob un o'r partion bod y cynllun yn ymddangos yn gyraeddadwy ac fe'i mabwysiadwyd yn ffurfiol gan y Cyngor llawn ar 14 Chwefror 2006.

RHAGAIR GAN Y CYFARWYDDWR COFFORAETHOL - ADNODDAU**DYLEDION TYMOR HIR**

4.8 Fel rhan o'r arolwg effeithlonrwydd sy'n mynd ymlaen ar wariant ar wasanaethau, manteisiodd y Cyngor ar gyfle i aildrefnu cyfran arwyddocaol o'r ddyled. Yn Chwefror 2006, aildrefnodd y Cyngor £32m (28% o gyfanswm y portffolio dyled o £116m). Disodlwyd deg benthyciad, gyda chyfraddau llog yn amrywio o 4.6% i 4.9%, gan un benthyciad yn codi 3.7%. Creodd hyn arbedion blynyddol parhaus o tua £0.230m mewn costau cyllido. Hefyd fe greodd breimiwm ad-dalu cynnar o £1m ac mae hwn yn cael ei ddibrisio i'r cyfrifon dros oes 50 mlynedd y benthyciad newydd (mae elfen yn cael ei roi yn erbyn yr HRA dros 10 mlynedd hefyd).

**POLISIŌU CYFRIFYDDU**

4.9 Adolygwyd Polisiâu Cyfrifyddu'r Cyngor yn ystod y flwyddyn i sicrhau eu bod yn dal yn berthnasol. Mae nifer o bolisiâu wedi'u diwygio i sicrhau eu bod yn fwy dealladwy a bod y Datganiad yn cydymffurfio â'r SORP. Serch hynny, ni wnaed unrhyw newidiadau o bwys i'r polisiâu presennol. Ychwanegwyd polisi newydd mewn perthynas â Benthycia Darbodus.

SWYDDOGAETHAU STATUDOL

4.10 Nid oedd dim newidiadau o bwys yn swyddogaethau statudol y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

GWYBODAETH BELLACH

4.11 Y mae gwybodaeth bellach ynglyn â'r cyfrifon ar gael gan y Rheolwr Ariannol, Cyngor Sir Ddinbych, Swyddfeydd y Cyngor, Neuadd y Sir, Wynnstey Road, Rhuthun, LL15 1YN. Yn ychwanegol at hynny, mae gan aelodau'r cyhoedd hawl statudol i archwilio'r cyfrifon cyn i'r archwiliad gael ei gwblhau. Mae'r ffaith fod y cyfrifon ar gael i'w harchwilio yn cael ei hysbysebu yn y wasg leol.

Alan Evans

Cyfarwyddwr Corfforaethol—Adnoddau a Dirprwy Brif Weithredwr

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU**Cyfrifoldebau'r Cyngor Sir**

Mae'n ofynnol ar y Cyngor Sir:

- (i) i wneud trefniadau ar gyfer gweinyddiad cywir o'i fusnes ariannol, a sicrhau bod gan un o'i swyddogion y cyfrifoldeb am weinyddu'r busnes hwnnw;
- (ii) i reoli ei fusnes mewn modd sy'n sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau, ac sy'n diogelu ei asedau;
- (iii) i gadarnhau'r Datganiad Cyfrifon.

TYSTYSGRIF YR AWDURDOD

Cymeradwyaf Ddatganiad Cyfrifon Cyngor Sir Ddinbych ar 31 Mawrth 2006.



Arwyddwyd.....Dyddiad26 Hydref 2006.....

CADEIRYDD CYNGOR SIR DDINBYCH

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Adnoddau

Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Adnoddau yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon yr Awdurdod sydd, yn nhermau Côt Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol ym Mhrydain Fawr ('y Côt Ymarfer').

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Adnoddau:

- (i) wedi dewis egwyddorion cyfrifyddu addas, ac yna wedi eu gweithredu mewn modd cyson;
- (ii) wedi ffurfio barn a llunio amcangyfrifon a oedd yn rhesymol ac yn bwyllog;
- (iii) wedi cydymffurfio â'r Côt Ymarfer.

Hefyd, mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Adnoddau:

- (i) wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir a oedd yn gyfamserol;
- (ii) wedi cymryd camau rhesymol i rwystro a chanfod twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra.

Tystysgrif:- Cyfarwyddwr Corfforaethol - Adnoddau

Tystiaf fod y cyfrifon a ddangosir ar dudalennau 15 - 64 yn cyflwyno darlun teg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ddinbych ar 31 Mawrth 2006, ynghyd â'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2006.



Alan Evans
Cyfarwyddwr Corfforaethol - Adnoddau

26 Hydref 2006

DATGANIAD YNGLYN Â'R GYFUNDREFN RHEOLI ARIANNOL MEWNOL**1. SGÔP CYFRIFOLDEB**

- 1.1 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gyflawni yn unol â'r gyfraith a safonau priodol. Mae angen sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, yn cael ei gyfrif amdano yn briodol ac yn cael ei ddefnyddio yn economaidd, effeithiol ac effeithlon. Mae gan y Cyngor ddyletswydd hefyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus yn y dull o weithredu ei swyddogaethau.
- 1.2 Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod system gadarn o reolaeth fewnol sy'n hwyluso ymarfer effeithiol swyddogaethau'r Cyngor ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

2 DIBEN Y SYSTEM O REOLAETH FEWNOL

- 2.1 Mae'r system o reolaeth fewnol wedi ei chynllunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu holl berygl methiant i gyflawni polisiâu, nodau ac amcanion; gall felly ond ddarparu sicrhad rhesymol ac nid absoliwt o effeithiolrwydd. Mae'r system o reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus wedi ei dylunio i adnabod a blaenoriaethu risgiau i gyflawni polisiâu, nodau ac amcanion y Cyngor, i gloriannu tebygolrwydd y risgiau hynny yn cael eu gwireddu a'r effaith os cânt eu gwireddu, ac i'w rheoli.

3 DATGANIAD O REOLAETH ARIANNOL FEWNOL

- 3.1 Mae'r system reolaeth fewnol wedi'i seilio ar fframwaith gwybodaeth rheoli rheolaidd, rheoliadau ariannol, gweithdrefnau gweinyddol, goruchwyliaeth rheolwyr a system ddirprwyo ac atebolrwydd. Mae rheolwyr o fewn y Cyngor yn ymgymryd â datblygu a chynnal y system. Yn arbennig, mae'r system yn cynnwys:
- Cyfansoddiad ffurfiol (yn cynnwys Rheoliadau Ariannol) sy'n amlinellu sut mae'r Cyngor yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau;
 - Mae proses cynllunio busnes y Cyngor yn amlinellu Amcanion Corfforaethol ac mae wedi'i chysylltu'n uniongyrchol â Chynlluniau Busnes Cyfarwyddiaethau. Amlinellir gwelliannau cynlluniedig yn y Cynllun Gwella blynyddol.
 - Hwylusir gwneud polisiâu a phenderfyniadau gan:
 - Y Cabinet a'r Tîm Gweithredu Corfforaethol sy'n gweithredu dan set glir o bwerau yng nghyfansoddiad y Cyngor
 - Pwyllgorau Craffu sy'n gallu 'galw i mewn' benderfyniadau a wnaed gan y Cabinet a Swyddogion ac adolygu meysydd gwaith perthnasol eraill
 - Pwyllgor Llywodraeth Gorfforaethol sy'n monitro rheolaeth risgiau corfforaethol, yn adolygu gwaith archwilio, yn monitro ymatebion gwasanaethau i argymhellion archwilio ac yn adolygu cwynion a dderbynnir ynghylch y Cyngor
 - Mae cylch gwaith Archwilio Mewnol yn mynnu bod gwaith yn cael ei wneud yn unol â'r safonau proffesiynol a amlinellir yn Safonau a Chanllawiau Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol ar gyfer Arfer Archwilio Mewnol yn Broffesiynol a Chôd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol.
 - Mae'r cylch gwaith yn amodi hefyd fod Pennaeth Archwilio Mewnol â mynediad uniongyrchol at y Prif Weithredwr, yr uwch reolwyr, y Cabinet, y Pwyllgor Llywodraeth Gorfforaethol a Phwyllgorau Craffu.

DATGANIAD YNGLYN Â'R GYFUNDREFN RHEOLI ARIANNOL MEWNOL

- Cyflenwir cefnogaeth a chyfarwyddyd corfforaethol i Gyfarwyddiaethau ar Gaffael a Rheoli Prosiectau i sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus.
- Mae gweithdrefnau rheoli risg y Cyngor yn gofyn am gyfranogiad rhagweithiol pawb sy'n gyfrifol am gynllunio a chyflwyno gwasanaethau wrth ganfod, gwerthuso a rheoli'r holl risgiau i flaenoriaethau, gwasanaethau a phrosiectau pwysig y Cyngor.
- Mae gan y Cyngor gofrestr risgiau corfforaethol sy'n cael ei chyfarwyddo gan asesiadau risg a wnaed yn ystod y broses cynllunio busnes. Caiff y gofrestr ei monitro a'i diweddarau'n rheolaidd drwy gyfarfodydd chwarterol gyda phob gwasanaeth, wedi'u hwyluso gan Bennaeth Archwilio Mewnol.
- Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Adnoddau, fel y mynnir gan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yw gweinyddu Materion Ariannol yr Awdurdod yn briodol, a chaiff rôl y Swyddog Monitro ei chyflawni gan Clerc y Sir.
- Cyflenwir y Cabinet â diweddariadau misol ar sefyllfa refeniw a chyfalaf yr Awdurdod. Cyflenwir y Cyngor llawn â diweddariadau cyfalaf chwarterol.
- Penderfynir cyllidebau Refeniw o ganlyniad i broses cynllunio busnes Cyfarwyddiaethau.
- Caiff arian Cyfalaf ei ddyrannu yn ôl Meini Prawf Blaenoriaethu Cyfalaf y Cyngor.
- Fel rhan o Buddsoddwyr Mewn Pobl caiff Arolygon Datblygiad Personol staff unigol eu cysylltu ag amcanion Cyfarwyddiaethau ac amcanion Corfforaethol ac maent yn sicrhau bod anghenion hyfforddi perthnasol yn cael eu clustnodi.

4. ADOLYGIAD O EFFEITHIOLRWYDD

4.1 Caiff effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol ei chyfarwyddo gan:

- y broses Cynllunio Gwellianau;
- gwaith rheolwyr yn y Cyngor;
- gwaith yr archwilwyr mewnol, fel y mae wedi ei ddisgrifio uchod; a
- sylwadau'r archwilwyr allanol yn eu llythyr archwilio blynyddol ac mewn adroddiadau eraill.

4.2 Mae'r Cyngor yn cyflawni swyddogaeth archwilio mewnol; mae ei rôl yn cynnwys adolygu cydymffurfiad â gweithdrefnau ariannol a pholisïau eraill, cadw golwg ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithrediadau'r Cyngor ac ar ddiogeledd asedau'r Cyngor, a diogelu'r Cyngor yn erbyn twyll a llygredd. Mae'r trefniadau gweithredol a rheolaethol ar gyfer archwilio mewnol fel a ganlyn:

- Mae Archwilio Mewnol yn un o wasanaethau'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau, sydd yn adrodd i mi trwy Bennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol.
- Mae rhaglen waith flynyddol Archwilio Mewnol yn seiliedig ar asesiad risg, a thrwy hynny'n sicrhau bod adnoddau'n cael eu canolbwyntio ar y gweithrediadau pwysicaf.
- Y mae adroddiad blynyddol, sydd yn cyflwyno barn ynglyn â'r amgylchedd cyffredinol o ran rheolaeth a risg ac sy'n adrodd ynglyn â chanfyddiadau o sylwedd yn ystod y flwyddyn, yn cael ei gynhyrchu ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol gan Bennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol.

DATGANIAD YNGLYN Â'R GYFUNDREFN RHEOLI ARIANNOL MEWNOL


- Ar sail y gwaith y mae wedi ei gwblhau yn ystod y flwyddyn, mae Archwilio Mewnol wedi dod i'r casgliad bod yr amgylchedd rheoli ariannol yn y Cyngor yn foddhaol a bod y drefn yn cael ei gweithredu'n weddol gyson ar draws yr Adrannau. Mae trefniadau boddhaol wedi eu rhoi ar waith ar gyfer sicrhau gweithrediad effeithiol, effeithlon a darbodus materion ariannol y Cyngor. Canfu gwaith ar systemau ariannol sylfaenol y Cyngor bod rheolaethau ariannol cadarn yn bodoli. Amlygodd adroddiad yr archwilydd rai gwendidau yn y gweithdrefnau'n ymwneud a defnyddio archebion prynu a gwirio anfonebau yn ogystal a rheolaeth gyffredinol y TAW o fewn y Cyngor, serch hynny, roedd hyn wedi gwella'n sylweddol ers y llynedd ac mae gwaith pellach ar fynd i sicrgau bod y gwelliannau'n parhau.

4.3 Yn ystod y flwyddyn gweithredwyd y camau pellach canlynol i wella mesurau rheoli mewnol y Cyngor:

- Adolygu a diweddarau elfennau o'r Cyfansoddiad
- Adolygu a diweddarau elfennau o'r Rheoliadau Ariannol
- Dal i ddatblygu'r Strategaeth Rheoli Risgiau Corfforaethol a'r Gofrestr Risgiau
- Cyflwyno'r system Adnoddau Dynol newydd a diwygio'r broses datblygu staff yn sylweddol i gynnwys system gwerthuso staff
- Cyflwynwyd proses blaenoriaethu cyfalaf newydd
- Dechreuwyd arolwg o'r gallu i Reoli Prosiectau o fewn y sefydliad
- Gwnaed gwelliannau i reolaeth TAW



Ian Miller
Prif Weithredwr



Rhiannon Hughes
Leader of the Council

Rhiannon Hughes
Arweinydd y Cyngor

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I GYNGOR SIR DDINBYCH

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifon Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2006 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r datganiadau yn cynnwys y Cyfrif Refeniw Cyfunol, y Cyfrif Refeniw Tai, y Fantolen Gyfunol, Datganiad Holl Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, a'r Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau cyfrifon wedi eu paratoi dan y polisiau cyfrifeg a nodir yn y datganiad cyfrifon.

Cyflwynir yr adroddiad hwn i Gyngor Sir Ddinbych yn unig yn unol â Rhan 2 o Ddeddf Archwilio (Cymru) 2004 ac i ddim un pwrpas arall, fel y nodir ym Mharagraff 42 Datganiad Cyfrifoldebau Archwilwyr a Benodwyd, ac Arolygwyr, a Chyrff a Archwiliwyd ac a Arolygwyd (2005) a baratowyd gan yr Archwiliwr Cyffredinol ar gyfer Cymru.

Cyfrifoldebau priodol y Prif Swyddog Ariannol ac archwilwyr

Nodir cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Ariannol ar gyfer paratoi'r Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddio perthnasol a'r Datganiad Arferion a Argymhellir ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Gyfunol 2005 yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifon yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddio perthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol (DG ac Iwerddon).

Rwy'n adrodd i chi fy marn ar a yw'r datganiadau cyfrifon yn cyflwyno'n deg sefyllfa ariannol y Cyngor yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddio perthnasol a'r Datganiad Arferion a Argymhellir ar Gyfrifeg Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Gyfunol 2005.

Rwy'n arolygu a yw'r datganiad ar reoli mewnol yn adlewyrchu cydymffurfiad gyda chyfarwyddyd CIPFA ar Reolaeth Fewnol mewn Llywodraeth Leol: Rheoliadau Cyflawni Gofynion Cyfrifon ac Archwilio 2003. Rwy'n adrodd os nad yw'n cydymffurfio gydag arferion priodol a bennir gan CIPFA neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson gydag unrhyw wybodaeth arall rwyf yn ymwybodol ohoni. Nid oes angen i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, os yw'r datganiad ar reoli mewnol yn cynnwys holl risgiau a rheolaethau. Nid oes angen i mi 'chwaith lunio barn ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraeth gorfforaethol na'i drefniadau risg a rheoli.

Rwyf wedi darllen gwybodaeth arall a gyhoeddwyd gyda'r datganiadau cyfrifeg, ac wedi ystyried os yw'n gyson gyda'r datganiadau cyfrifeg a archwiliwyd. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y Rhagair Esboniadol, Cronfa Deddfau Eglwys Cymru a'r Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg (nodiadau 23 a 24 i'r Fantolen Gyfun). Rwy'n ystyried y goblygiadau i f'adroddiad os rwy'n dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysondeb perthnasol gyda'r datganiadau cyfrifeg. Nid yw fy nghyfrifoldebau'n ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

Sylfaen barn archwilio

Rwyf wedi ymgymryd â f'archwiliad yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Cod Arferion Archwilio ac Arolygu a gyhoeddwyd gan yr Archwiliwr Cyffredinol ar gyfer Cymru, Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DG ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys arolygu, ar sail profion, tystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifon. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o amcangyfrifon a phenderfyniadau arwyddocaol a wnaed gan y Cyngor wrth baratoi'r datganiadau cyfrifon, ac os yw'r polisiau cyfrifon yn briodol i amgylchiadau'r Cyngor, yn cael eu defnyddio'n gyson ac yn cael eu datgelu'n ddigonol.

Mae f'archwiliad wedi ei gynllunio a'i berfformio er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a ystyriwyd yn angenrheidiol gennyf i ddarparu tystiolaeth ddigonol i roddi sicrhad rhesymol bod y datganiadau cyfrifon yn rhydd rhag camddatganiadau perthnasol, boed oherwydd twyll neu afreoleidd-dra neu gamgymeriad arall. Wrth lunio barn, rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol cyflwyniad gwybodaeth yn y datganiadau cyfrifon.

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I GYNGOR SIR DDINBYCH**Barn**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifon yn cyflwyno'n deg, yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddio perthnasol, a'r Datganiad o Arferion a Argymhellir ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Gyfunol 2005, sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ddinbych ar 31 Mawrth 2006 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw.

Tystysgrif

Rwy'n tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Arferion Archwilio ac Arolygu a gyhoeddwyd gan yr Archwiliwr Cyffredinol ar gyfer Cymru.

Bydd fy nghasgliad bod trefniadau Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2006, yn cael ei gyhoeddi ar wahân yn y Llythyr Blynnyddol Rheolwr Perthynas a gyhoeddir.



.....

Dyddiad: 27 Hydref 2006

Anthony J Barrett
Swyddfa Archwilio Cymru
Uned 4
Lakeside Business Village
Parc Dewi Sant
Ewlo
CH5 3XP

Cyfrifoldeb y Rheolwr Cyllid yw cynhالياeth a chywirdeb gwefan Cyngor Sir Ddinbych (Adran Cyllid); nid yw'r gwaith a wneir gan yr archwilydd yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn ac felly ni all yr archwilwyr dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all ddigwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu rhoi'n wreiddiol ar y wefan.

Gall deddfwriaeth y Deyrnas Unedig am baratoi a lledaenu datganiadau ariannol wahaniaethu o ddeddfwriaeth gwledydd eraill.

DATGANIAD O BOLISIÂU CYFRIFYDDU

Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r datganiad cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyngor am flwyddyn ariannol 2005/06 a'i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn, sef 31 Mawrth 2006. Mae wedi'i baratoi yn unol â *Chôd Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig – Datganiad o'r Arfer Cymeradwy 2005* (y SORP) Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Y confensiwn cyfrifyddu sy'n cael ei fabwysiadu yw cost hanesyddol, wedi'i addasu drwy ailbriso rhai categorïau o asedau sefydlog diriaethol.

Mae'r Awdurdod yn cydymffurfio hefyd â Chôd Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau (BVACOP) sy'n sefydlu arfer priodol mewn perthynas â chyflwyno adroddiadau ariannol cyson islaw'r lefel datganiad cyfrifon a phenderfynu cyfanswm cost gwasanaethau.

Ble mae'n briodol, gwnaed darpariaeth ar gyfer dyledion drwg neu amheus.

Mae'r polisïau canlynol wedi eu mabwysiadu wrth lunio'r cyfrifon:

Dyledwyr a Chredydwyr

Mae cyfrifon refeniw y Cyngor yn cael eu cynnal ar sail derbyniadau a thaliadau yn ystod y flwyddyn, ac maent yn cael eu troi'n gyfrifon incwm-a-gwariant ar ddiwedd y flwyddyn trwy ddarparu ar gyfer yr holl dyledwyr a chredydwyr ar delerau gwirioneddol neu ar sail amcangyfrif. Mae gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu ar sail yr arian gwirioneddol a gafodd ei wario yn ystod y flwyddyn.

Mae gan y Cyngor bolisi o dalu credydwyr o fewn deng niwrnod ar hugain i ddyddiad yr anfoneb.

Darpariaethau

Mae'r Cyngor yn gwneud darpariaethau ar gyfer treuliau penodol yn y dyfodol ble nad oes modd gwarantu union swm neu amseriad y taliad. Rhoddir manylion y prif ddarpariaethau yn Nodyn 15 i'r Fantolen. Caiff y swm sydd wedi'i gynnwys ym mhob darpariaeth ei adolygu bob hyn a hyn.

Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r Cyngor yn rhoi symiau penodol o'r neilltu fel cronfeydd wrth gefn ar gyfer dibenion polis i yn y dyfodol neu i gwrdd â threuliau annisgwyl. Manylir ar y prif gronfeydd wrth gefn yn Nodyn 21 i'r Fantolen. Mae rhai cronfeydd wrth gefn, megis y Cyfrif Codi Cyfalaf a'r Cyfrif Ailddatganiad Asedau Sefydlog, yn cael eu cadw at ddibenion statudol neu gyfrifyddol ac nid ydynt yn adnoddau defnyddiadwy i'r Cyngor. Eglurir y rhain ymhellach yn y polisïau perthnasol isod. Caiff y rhain eu hesbonio ymhellach yn nodiadau Mantolen 18 ac 16.

Pensiynau

Mae'r Cyngor Sir yn ymwneud â dau gynllun pensiwn gwahanol sy'n bodloni anghenion gweithwyr mewn gwasanaethau penodol. Mae'r holl gynlluniau yn darparu buddion diffiniedig i aelodau yn gysylltiedig â chyflog a gwasanaeth. Mae'r cynlluniau fel a ganlyn:

- **Athrawon:**

Dyma gynllun anghronnol a weinyddir gan yr Asiantaeth Pensiynau Athrawon ar ran y Llywodraeth. Mae cost y pensiwn a godir ar y cyfrifon yn gyfradd amcanol a osodir gan yr Adran Addysg a Sgiliau (DfES) ar sail cynllun a ariennir yn genedlaethol.

Tra bo hwn yn gynllun budd diffiniedig, ni all yr Asiantaeth Pensiynau Athrawon nodi cyfran y Cyngor o'r asedau a rhwymedigaethau gwaelodol ac felly mae'r Cyngor yn trin cyfraniadau i'r cynllun fel ag y byddai'n gynllun cyfrannu diffiniedig. Mae cost y pensiwn a adroddir am flwyddyn gyfwerth â'r cyfraniadau a delir i'r cynllun yn y cyfnod cyfrifo ac fe'i dangosir o fewn cost net y gwasanaethau yn y Cyfrif Refeniw Cydgyfnerthedig. Cydnabyddir ased neu rwymedigaeth yn unig i'r graddau bod yna gyfraniadau a ragdalwyd neu rai sydd heb eu talu ar ddyddiad y fantolen.

DATGANIAD O BOLISIAU CYFRIFYDDU

Cyfrifir cost buddion ychwanegol a roddir ar ymdeoliad cynnar athrawon tu allan y Cynllun Pensiwn Athrawon ar sail cynllun diffiniedig (gweler isod).

- **Gweithwyr Eraill:**

Mae gan weithwyr eraill, yn amodol ar feini prawf cymwys penodol, yr hawl i ymuno â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS), yn benodol Cronfa Bensiwn Clwyd a weinyddir gan Gyngor Sir y Fflint ar ran y Cyngor. Mae'r cynllun hwn yn cwrdd â'r diffiniad o gynllun budd diffiniedig a rhoddir cyfrif amdano fel a ganlyn:

- (i) Caiff asedau cyfrifiadwy y Cynllun, sy'n cynnwys asedau cyfredol yn ogystal â buddsoddiadau, eu mesur ar eu gwerth teg ar ddyddiad y fantolen. Caiff rhwymedigaethau cyfrifiadwy'r cynllun eu mesur ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull uned amcanol. Mae rhwymedigaethau'r Cynllun yn cynnwys:
 - a) unrhyw fuddion a addawyd dan dermau ffurfiol y cynllun; ac
 - b) unrhyw oblygiadau adeiladol am fuddion pellach ble mae datganiad cyhoeddus neu cyn arfer gan y Cyngor wedi creu disgwyliaid dyls i'r gweithwyr y bydd buddion o'r fath yn cael eu caniatáu
- (ii) Y gweddill/diffyg yn y Cynllun yw'r gormodedd/diffyg yng ngwerth yr asedau yn y cynllun dros/dan werth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun. Mae'r Cyngor yn cydnabod ased i'r graddau nad yw'n gallu adennill gweddill naill ai drwy gwtogi ar gyfraniadau yn y dyfodol agos neu drwy ad-daliad o'r Cynllun. Mae'r Cyngor yn cydnabod rhwymedigaethau i'r graddau ei fod yn adlewyrchu ei ymrwymiad cyfreithiol neu adeiladol.
- (iii) Cynhwysir unrhyw gyfraniad na dalwyd i'r Cynllun fel credydwr yn y fantolen.
- (iv) Dadansoddir y newid yn yr ased neu rwymedigaeth diffiniedig i'r cydrannau canlynol:
 - i) Costau cyfnodol
 - a. cost gwasanaeth cyfredol
 - b. cost llog
 - c. adenillion disgwyliedig ar asedau ac
 - ch. enillion a cholledion actiwaraidd
 - ii) Costau anghyfnodol
 - a. costau ôl-wasanaeth
 - b. enillion a cholledion ar gytundebau a chwtogiadau
- (v) Cynhwysir y gost gwasanaeth cyfredol o fewn cost net gwasanaethau a chynhwysir net costau llog a'r adenillion disgwyliedig ar asedau o fewn gwariant gweithredu net yn y Cyfrif Refeniw Cydgyfnerthedig. Cydnabyddir enillion a cholledion actiwaraidd yn codi o unrhyw brisiadau newydd ac o ddiweddarau'r prisiad actiwaraidd diwethaf yn Natganiad Cyfanswm Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Cydnabyddir costau ôl-wasanaeth yng nghost net y gwasanaeth.
- (vi) Wrth asesu'r rhwymedigaethau ar gyfer buddion ymdeol ar 31 Mawrth 2005 i Ddatganiad Ariannol 2004/05, roedd y SORP yn gofyn i'r actwari ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 2.7% real (5.5% gwirioneddol). I Ddatganiad Ariannol 2005/06, defnyddir cyfradd yn seiliedig ar yr adenillion cyfredol mewn bond corfforaethol ansawdd uchel o arian a thermau cyfwerth â rhwymedigaethau'r cynllun. Mae'r actwari wedi nodi bod cyfradd 2.9% real (4.9% gwirioneddol) yn briodol).

Treth Ar Werth

Dim ond TAW nad oes modd ei gael yn ôl oddi wrth Refeniw a Thollau Ei Mawrhydi sy'n cael ei gynnwys mewn cyfrifon incwm a gwariant.

DATGANIAD O BOLISIAU CYFRIFYDDU

Gorbenion a Gwasanaethau Cefnogi

Mae costau gorbenion a gwasanaethau cefnogi yn cael eu codi ar y rheini sy'n elwa ar y cyflenwi neu'r gwasanaeth yn unol â'r egwyddorion prisio yng Nghôd Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau CIPFA 2005. Mae costau llawn gorbenion a gwasanaethau cefnogi yn cael eu rhannu rhwng defnyddwyr mewn cyfrannedd i'r buddion a ddefnyddir gan amrywiol fethodoleg yn cynnwys cofnodi amser, nifer yr eitemau a ddefnyddiwyd, ayb. Yr unig gostau na chaiff eu rhoi yn erbyn gwasanaethau yw:

- Craidd Corfforaethol a Democrataidd – costau'n ymwneud â statws y Cyngor fel sefydliad amlswyddogaethol, democrataidd
- Costau Annosranedig – cost budd-daliadau dewisol a ddyfernir i weithwyr sy'n ymddeol yn gynnar

Rhoddir cyfrif am y ddau gategori cost yma fel penawdau ar wahân yn y Cyfrif Refeniw Cyfunol fel rhan o Wir Gost Gwasanaethau.

Asedau Sefydlog Anniriaethol

Mae gwariant ar asedau nad oes iddynt sylwedd corfforol ond sydd yn adnabyddadwy ac a reolir gan y Cyngor (ee trwyddedau meddalwedd) yn cael ei gyfalafu pryd y bydd yn dod â buddion i'r Cyngor am fwy nag un flwyddyn ariannol. Caiff y gweddill ei amorteiddio i'r cyfrif refeniw perthnasol dros oes economaidd y buddsoddiad i adlewyrchu patrwm treuliant y buddion. Nid oes gan y Cyngor unrhyw asedau anniriaethol ar hyn o bryd.

Asedau Sefydlog Diriaethol

Asedau sydd ag iddynt sylwedd corfforol (ee adeiladau, cerbydau, tir ayb) ac a ddelir i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau neu at ddibenion gweinyddol yn barhaus yw asedau sefydlog diriaethol.

Cydnabyddiaeth

Caiff yr holl wariant ar gaffael, creu neu wella asedau sefydlog ei gyfalafu ar sail cronïadau yn y cyfrifon, ar yr amod ei fod yn ildio buddion i'r Cyngor a bod y gwasanaethau y mae'n darparu ar eu cyfer yn fwy nag un flwyddyn ariannol. Mae gwariant sy'n sicrhau ond nad yw'n ymestyn safonau perfformiad yr ased a aseswyd yn flaenrol (ee atgyweiriadau a chynnal a chadw) yn cael ei gofnodi yn erbyn refeniw fel y mae'n digwydd.

Mesuriad: Caiff asedau eu mesur yn y lle cyntaf yn ôl eu cost, yn cynnwys yr holl wariant sydd i'w briodoli'n uniongyrchol i ddod â'r ased i gyflwr gweithio ar gyfer ei ddefnydd arfaethedig. Yna caiff asedau eu cario yn y fantolen gan ddefnyddio'r sylfeini mesur canlynol:

- Eiddo buddsoddi ac asedau nad oes bellach eu hangen – yr isaf o'r wir gost gyfredol o'u hadnewyddu neu'u gwir werth sylweddoladwy
- Caiff anheddau eu prisio yn ôl eu gwerth cyfredol mewn defnydd fel tai cymdeithasol
- Y mae daliannau tir ac eiddo wedi cael eu categoreiddio'n eiddo gweithredol ac eiddo anweithredol, yn unol â'r SORP, ac maent wedi eu prisio yn unol â'r Datganiad o Arferiad Prisio Asedau a'r Nodiadau Cyfarwyddyd sy'n cael eu cyhoeddi gan Sefydliad Brenhinol y Syrffewyr Siartredig. Mae'r rhain wedi eu cynnwys yn y fantolen ar ffurf naill ai'r gost adnewyddu gyfredol net neu'r gwerth sylweddoladwy net, pa un bynnag yw'r isaf.
- Mae asedau isadeiledd, asedau cymunedol a cherbydau, offer, dodrefn a chyfarpar wedi eu cynnwys yn y fantolen yn ôl eu cost hanesyddol, gyda dibrisiant wedi ei dynnu lle bo hynny'n briodol. Y mae amrywiadau o'r prisiad dechreuol o Asedau Sefydlog yn cael eu credydu neu eu debydu i'r Gronfa Ailddatgan Asedau Sefydlog.

DATGANIAD O BOLISIAU CYFRIFYDDU

Bwriedir cynnal adbrisiad dilynol o asedau sefydlog, fel rhan o asesiad parhaus, er mwyn i'r holl asedau gael eu hadbrisio o fewn pum mlynedd i'w prisiad blaenorol; ond bydd newidiadau sylweddol mewn prisiad ased yn destun addasiad yn y cyfamser, wrth iddynt ddigwydd.

Mae'r gwerthoedd cyfredol sy'n cael eu defnyddio yn y cyfrifon yn seiliedig ar adbrisiad ar 1 Ebrill 2001, 1 Ebrill 2002, 1 Ebrill 2003, 1 Ebrill 2004 a 1 Ebrill 2005.

Amhariad

Caiff asedau sefydlog eu hadolygu o ran amhariad ar ddiwedd pob cyfnod cyflwyno adroddiad:

Ble caiff amhariad ei glustnodi fel rhan o'r arolwg hwn neu o ganlyniad i ymarferiad prisio, rhoddir cyfrif am hyn drwy:

- Ble mae'n briodoladwy i dreuliant clir buddion economaidd – caiff y golled ei chofnodi'n erbyn y cyfrif refeniw gwasanaeth perthnasol
- Fel arall – ei ddileu yn erbyn y Cyfrif Ailddatganiad Asedau Sefydlog

Gwarediadau

Pan fydd ased yn cael ei waredu neu ei ddatgomiynu, mae gwerth yr ased yn y fantolen yn cael ei ddileu i'r Cyfrif Asedau Sefydlog: Ailddatganiad (*Restatement*).

Mae symiau dros £10,000 o warediadau a dderbynnir yn cael eu credydu i'r gronfa Derbynebaw Cyfalaf Defnyddiol, a gellir eu defnyddio ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd neu eu rhoi o'r neilltu i leihau gofynion benthycar Cyngor yn unig.

Dibrisiant

Mae'r holl asedau sefydlog sydd ag oes ddefnyddiol benodol yn destun dibrisiant (ac eithrio eiddo buddsoddi). Mae dibrisiant yn cael ei dynnu yn y flwyddyn y ceir gwared â'r ased, ond nid ym mlwyddyn caffael yr ased. Mae asedau'n cael eu dibrisio gan ddefnyddio'r dull llinol, dros y cyfnodau a ganlyn:

Adeiladau	1-200 mlynedd
Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar	5 mlynedd
Isadeiledd	40 mlynedd

Grantiau a Chyfraniadau gan y Llywodraeth

Pan fydd gwariant y byddai'n gywir i'w gyfalafu yn cael ei ariannu yn gyfangwbl neu'n rhannol gan grant neu gyfraniad gan y llywodraeth, mae swm y grant neu gyfraniad yn cael ei gredydu, ar y dechrau, i'r Cyfrif Grantiau Llywodraeth a Ohiriwyd. Mae symiau'n cael eu rhyddhau i'r Cyfrif Refeniw Rheoli Asedau dros oes ddefnyddiol yr ased, er mwyn cyfateb i'r dibrisiant sy'n cael ei dynnu o werth yr ased y mae'n ymwneud ag ef.

Codiannau i Refeniw am Asedau Sefydlog

Y mae codiant cyfalaf am yr holl asedau sefydlog sy'n cael eu defnyddio wrth ddarparu gwasanaethau yn cael ei gynnwys yn y Cyfrifon Refeniw. Mae cyfanswm y codiant yn cynnwys y ddarpariaeth flynyddol ar gyfer dibrisiant, ynghyd â chodiant ariannu cyfalaf sy'n cael ei bennu trwy gymhwysu cyfradd llog dybiannol benodol i werthoedd net yr asedau. Mae'r codiant ar y Cyfrif Refeniw Tai yn swm sy'n gyfartal â'r codiannau ariannu statudol.

Y cyfraddau llog tybiannol sy'n cael eu defnyddio yw 3.5% am asedau sy'n cael eu dal yn ôl eu gwerth cyfredol, a 4.8% am asedau sy'n cael eu dal yn ôl eu cost hanesyddol, fel sy'n cael ei bennu gan Gyd-Bwyllgor CIPFA/LASAAC.

DATGANIAD O BOLISIAU CYFRIFYDDU

Mae'r llog allanol sy'n daladwy, a'r ddarpariaeth ar gyfer dibrisiant, yn cael eu cofnodi yn y Cyfrif Refeniw Rheoli Asedau, sy'n cael ei gredydu gyda chodiannau cyfalaf sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau. Felly, effaith niwtral y mae codiannau cyfalaf yn ei chael ar y symiau y mae gofyn eu codi trwy drethi lleol.

Costau Gohiriedig

Mae codiannau gohiriedig yn cynrychioli taliadau o natur cyfalaf, nad ydynt yn arwain at greu ased sefydlog. Mae codiannau gohiriedig yn cael eu dileu fel gwariant yn y cyfrif refeniw gwasanaeth perthnasol yn y flwyddyn y mae'r codiant yn digwydd.

Prydlesoedd Gweithredu

Mae gan y Cyngor wahanol asedau cyfalaf, — offer cyfrifiadurol a cherbydau yn bennaf — sy'n destun prydlesoedd. Dan y rheoliadau cyfrifyddu cyfalaf, mae asedau sy'n cael eu meddiannu trwy brydles weithredu yn cael eu cadw oddi ar y fantolen, gan nad eiddo'r Cyngor mohonynt. Mae cost rhenti blynyddol am brydlesoedd yn cael ei chodi ar y Cyfrif Refeniw Gwasanaeth ar sail taliadau. Ceir manylion y prydlesoedd yn Nodyn 20 i'r Cyfrif Refeniw Cyfunol.

Adbwrcasu Benthyciad

Cydnabyddir enillion neu golledion sy'n codi ar adbwrcasu neu setliad cynnar unrhyw fenthyciad yn y Cyfrif Refeniw Cydygfnerthedig yn ystod y cyfnod y gwneir yr adbwrcasu neu'r setliad cynnar. Lle'r oedd adbwrcasu benthyciad yn digwydd ynghyd ag adgyllido neu ailstrwythuro benthyciad gyda'r un effaith economaidd ar y cyfan wrth edrych arno yn ei gyfanrwydd, mae enillion neu golledion wedi'u cydnabod dros oes y benthyciad newydd lle bo hynny'n berthnasol.

Buddsoddiadau

Mae'r Cyngor yn buddsoddi arian gwaged am gyfnodau rhwng 1 dydd a 364 dydd. Mae buddsoddiadau wedi'u cofnodi yn y cyfrifon ar gost. Mae Nodyn 11 i'r Fantolen yn rhoi gwybodaeth bellach.

Llog

Mae incwm llog allanol yn cael ei gredydu i'r refeniw dros y cyfnod y mae'n perthyn iddo ar sail croniadau.

Stociau a Gwaith ar Droed

